# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Ionawr 9fed 2019.

**Presennol.**

Cyng D.Morris, Cyng S.Roberts,Cyng C.Edwards,Cyng G.Jones,

Cyng P.Jenkins.

**Ymddiheuriadau**

Cyng C.Dixon

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 12fed Rhagfyr 2018.**

Cynigwyd yn gywir gan Cyng Roberts yn cael ei eilio gan Cyng Jones.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Cynghorydd Peredur Jenkins i rannu copiau o adroddiad Cyngor Gwynedd sydd yn ymateb i Cylch yr Iaith ynglyn a Twristiaeth yng Ngwynedd.

Y Cyngor yn dal i aros am ad daliad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ymwneud a anfoneb Gwyn Jones y Trydanwr.

**Banc HSBC** – Clerc yn gobeithio cwblhau gwaith "safeguarding" yn y mis nesaf er mwyn medru cadw cyfrif y Cyngor ar agor.

**Toiled Y Ganllwyd** – Y Clerc wedi danfon ebost i Cyngor Gwynedd i gadarnhau blodlonrwydd y Cyngor Cymuned i aros mewn partneiaeth ynglyn a'r Toiled ar yr amodau presennol, sef cyfraniad o £250 y flwyddyn.

**Cais Presept** – Y cais wedi ei gwblhau am £3,000 a wedi ei gyflwyno i Cyngor Gwynedd.

**Adroddiad Cynghorydd Sir** – Adroddodd Y Cyng P Jenkins gynlluniau Cyngor Gwynedd ynglyn a chyllideb y Sir am y flwyddyn ariannol 2019-2020 a bydd y penderfyniadau a'r manylion olaf yn cael eu gwneud cyn diwedd mis Ionawr 2019.

**Materion Ariannol**

**Awdit Mewnol 2019** – Mae'r Cyngor am ofyn i'r Archwilydd Cyngor Gwynedd i wneud yr Awdit am y flwyddyn ariannol yma.

**Cyllid Misol Rhagfyr 2018**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£5555.47** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Dim** | |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | |
| **Yn y banc diwedd mis** | **£5455.47** |

**Llythyrau ac Ebyst**

Dim

**Unrhyw Fater Arall**
Dim